

Gofynnwch Am/ Please Ask For: Isaac Carr

Ffon/Telephone: Dd/B

Fy Nghyf/ My Ref:
IF 074

Dyddiad/ Date:
1 Rhagfyr 2023

Annwyl Berchennog / Breswyllydd

Heol Pantygraigwen/Stryd Llwynmadoc – Cyfyngiadau Aros Amrywiol

Mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion i ddarparu manau parcio i breswylwyr yn unig a llinellau melyn dwbl ar Heol Pantygraigwen, Pontypridd yn dilyn problemau parcio hir dymor ar Gilgant Hurford, Cilgant y Waun a Theras y Waun. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig i addasu maint y manau parcio i breswylwyr presennol ar Stryd Llwynmadoc.

Mae angen cyflwyno'r mesurau yma er mwyn gwella'r cyfleoedd parcio ar y strydoedd sydd wedi'u henwi uchod, sy'n cefnogi a hyrwyddo'r saith nod llesiant sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae manylion y newidiadau i'w gweld yn llun **TM22/042/PN – REV A** sydd wedi'i gynnwys gyda'r llythyr yma. Hefyd, mae modd gweld y manylion ar ein gwefan: www.rctcbc.gov.uk/traffig

Mae cyfnod o hysbysiad cyhoeddus ynglŷn â'r newidiadau yn ofyniad cyfreithiol, ble mae manylion y cynigion yn cael eu nodi. Dyma gyfle i aelodau o'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau sydd gyda nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Hoffech chi gyflwyno sylwadau? Anfonwch nhw ar bapur erbyn **22 Rhagfyr 2023**, at sylw Rheolwr y Gwasanaethau Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU neu mewn neges e-bost i gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi anfon e-bost ataf i'r cyfeiriad e-bost uchod.

Yn gywir,

Isaac Carr
Prentis Peiriannydd Sifil (Traffig) | Apprentice Civil Engineer (Traffic)
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management

Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth
Highways, Streetcare and Transportation
Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCI0B
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Priffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



Gofynnwch Am/ Please Ask For: Isaac Carr

Ffon/Telephone: N/A

Fy Nghyf/ My Ref:
IF 074

Dyddiad/ Date:
1st December 2023

Dear Owner/Occupier

Pantygraigwen Road/Llwynmadoc Street – Various Waiting Restrictions

The council has developed proposals to provide a section of residents only parking and double yellow lines on Pantygraigwen Road, Pontypridd following longstanding issues with parking in Hurford Crescent, Heath Crescent and Heath Terrace, as well as vary the extents of the existing residents parking on Llwynmadoc street.

These measures are required for the improvement of parking opportunities for the aforementioned streets, which in turn supports and promotes the seven well-being goals of the future generations act 2015.

Details of the changes are shown on the attached drawings **TM22/042/PN – REV A**, which may also be viewed at **www.rctcbc.gov.uk/traffic**.

A period of Public Notice of the changes is a legal requirement, where details of the proposals are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any comments they may have. If you wish to comment, you should do so in writing by **22nd December 2023**, to the Traffic Services Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at **trafficservices@rctcbc.gov.uk**

I trust the above is of assistance, however if you require any further information please do not hesitate to contact me via the above email address.

Yours faithfully,

Isaac Carr
Prentis Peiriannydd Sifil (Traffig) | Apprentice Civil Engineer (Traffic)
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management